

Presennol

Y Cyngorydd RE Young – Cadeirydd

G Cox
R Turner

S Edwards
E Venables

G John
JE Williams

AA Pucella

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

G Hopkins a/ac JC Spanswick

Swyddogion:

Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Joanna Hamilton	Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Eilish Thomas	Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau

72. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

73. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod o Gydbwyllgor Amlogsgfa Llangrallo yn ddyddiedig 6 Mawrth 2020.

74. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O AMCANION CYNLLUN BUSNES 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc a'r Swyddog Technegol, a'i ddiben oedd cynghori'r Cydbwyllgor ar berfformiad Amlogsgfa Llangrallo yn ystod 2019/20.

Er gwybodaeth gefndirol, cadarnhaodd fod Cymal 3.2 o 'Femorandwm Cytundeb' y Cydawdurdod sy'n ymwneud â Chydbwyllgor Amlogsgfa Llangrallo yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cydbwyllgor dderbyn adroddiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn adolygu perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

Nododd paragraff 4.1 o'r adroddiad fod Atodiad A i'r adroddiad, h.y. Adolygiad Perfformiad Blynyddol ac Ariannol yr Amlogsgfa ar gyfer 2019/20 yn nodi perfformiad yr Amlogsgfa, yn ymwneud â

1. Nifer yr amlogsiadau
2. Safonau gwasanaeth
3. Gwariant wedi'i gynllunio
4. Cyflawni amcanion y Cynllun Busnes

Gan gyfeirio at rai pwyntiau allweddol yn Atodiad A, dywedodd y Clerc a'r Swyddog Technegol fod yr Amlogsgfa yn cynnal adolygiad chwarterol o ganlyniadau holiaduron sy'n bwydo i mewn i asesiad blynyddol o ansawdd y gwasanaeth. Ar gyfer 2019/20,

dangosodd hyn fod y lefel bodlonrwydd cyffredinol, i safon dda neu ragorol, yn parhau i fod yn 100%. Amlinellwyd dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn y rhan hon o'r adroddiad.

O ran arsylwad a wnaed gan berson a fu'n ymwneud â gwasanaeth amloggi o'r blaen, ar yr Amloggfa yn darparu arddangosfa fideo ar gyfer lluniau ac ati, dywedodd y Clerc a'r Swyddog Technegol wrth yr Aelodau fod y broses o brynu system fideo o'r fath wedi'i gohirio, ond y byddai'n cael ei phrynu yn y dyfodol agos.

Cyfeiriodd wedyn at dudalen 17 o Atodiad A a'r gwariant ar gyfer gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2019/20, lle'r oedd yn adlewyrchu bod peth gwaith wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, yn ymwneud ag estyniad y Llys Blodau, Goleuadau allanol i Fyrddau Dosbarthu Safleoedd a Thrydanol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cydbwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

75. CYFLEUSTERAU'R CWRT BLODAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor am ddarparu estyniad i gyfleuster y Cwrt Blodau yn Amloggfa Llangrallo.

Dywedodd fod adeiladau'r Amloggfa wedi'u cynllunio'n ofalus i ddarparu ar gyfer agweddau seremonïol a sanctaidd y gwasanaeth amloggi ac i ategu'r dirwedd y maent yn eistedd ynddi. Mae'r Amloggfa yn waith pwysig gan bensaer o Brydain â chanddo enw da yn rhyngwladol (Maxwell Fry,) ac mae'n adeilad rhestredig Gradd 2*. Fel y cyfryw, rhaid ystyried unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun yn ofalus.

Roedd yr Amloggfa'n cael ei hategu'n rheolaidd gan y defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer y cyfleusterau o safon uchel a ddarperir ac mae hyn yn amlwg yn yr holiaduron gwasanaeth a ddychwelwyd. Fodd bynnag, mae cyfleuster y Cwrt Blodau yn faes sy'n addas ar gyfer gwella oherwydd ei gynllun cryno. Roedd bellach yn annigonol ar gyfer y swyddogaethau yr oedd yn ofynnol iddo eu darparu.

Gosodwyd y pensaer Mr Jonathan Adams (Capita) yn gyfrifol am y gwaith dylunio. Mae Mr Adams yn bensaer o Gymru sy'n arbennig o adnabyddus am ei adeiladau nodedig yng Nghaerdydd a bu gynt yn Llywydd Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru (RSAW) rhwng 2005 a 2007. Mae ei brosiectau nodedig yn cynnwys y Ganolfan y Mileniwm fawreddog ym Mae Caerdydd, adeilad newydd y pencadlys ar gyfer Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn Llandaf ac adnewyddu Theatr y Sherman yng Nghaerdydd.

Yn y cyfarfod ar 6 Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cydbwyllgor y Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2020/21, gan symud £520,000 o'r swm amcangyfrifedig ar gyfer y prosiect a gynhwyswyd yng nghyllideb 2019/20 i gyllideb 2020/21.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod gwaith ar y prosiect yn mynd rhagddo'n dda mewn tri maes, sef:-

- Cymeradwyaethau Statudol
- Dylunio Manwl
- Gofynion Iechyd a Diogelwch/CDMA

Rhodddwyd rhagor o wybodaeth am yr uchod ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad, tra nododd paragraff 4.2 fod Pandemig Covid-19 wedi effeithio ar amserlen y gwaith ac y rhagwelwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Aelodau'r Cydbwyllgor ym mis Mawrth 2021.

PENDERFYNWYD: Bod y Cydbwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

76. GWOBR Y FANER WERDD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc a'r Swyddog Technegol, er mwyn cynghori cais llwyddiannus y Cydbwyllgor ar Amlosgfa Llangrallo am Wobr y Faner Werdd yn 2020.

Yna cadarnhaodd, fel y gŵyr yr Aelodau, mai Gwobr y Faner Werdd yw'r safon genedlaethol feincnod ar gyfer parciau a mannau gwyrdd yng Nghymru a Lloegr. Fe'i lanswyd ym 1996 i gydnabod a gwobrwyo'r mannau gwyrdd gorau yn y wlad. Cyflwynwyd y wobwr genedlaethol gyntaf ym 1997 ac mae'n parhau i nodi'r safonau uchel y mesurir ein parciau a'n mannau gwyrdd yn eu herbyn. Fe'i hystyrir hefyd yn ffordd o annog sefydliadau i gyflawni safonau amgylcheddol uchel, gan osod meincnod rhagoriaeth mewn ardaloedd hamdden gwyrdd. Mae'r holl fannau gwyrdd yn wahanol ac anogir amrywiaeth gyda phob safle'n cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod.

Derbyniodd Amlosgfa Llangrallo ei gwobr gyntaf yn 2010 ac yn flynyddol wedi hynny. Gwnaed ailgyflwyniad ar gyfer Gwobr y Faner Werdd ym mis Ionawr 2020 a chyhoeddwyd gwobrau ar 14 Gorffennaf 2020.

Cadarnhaodd y Clerc a'r Swyddogion Technegol fod yr Amlosgfa unwaith eto wedi llwyddo i sicrhau'r dyfarniad hwn a gydnabyddir yn genedlaethol am safonau gofal a chynnal a chadw'r safle a'r tiroedd. Mae'r wobwr yn cadarnhau'r ymrwymiad i gynnal safonau uchel, y gall pob ymwelydd ei werthfawrogi.

Gwerthfawrogodd yr Aelodau y gwaith caled parhaus a wnaed i gyflawni'r wobwr hon ar gyfer yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol.

Cynghorwyd y Cydbwyllgor bod cynlluniau'n cael eu gwneud i nodi'r digwyddiad ar 14 Hydref 2020.

Daeth y Cadeirydd â'r ddadl i ben ar yr eitem hon, drwy ddweud ei fod am gofnodi bod hyn yn gyflawniad gwirioneddol a diolchodd i'r Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd a'i staff am gynnal a gwella safonau yn yr Amlosgfa, er mwyn cael gwobr y Faner Werdd unwaith eto.

PENDERFYNWYD: Bod y Cydbwyllgor yn falch o nodi llwyddiant yr Amlosgfa wrth sicrhau Gwobr y Faner Werdd ar gyfer 2020.

77. GWASANAETH NADOLIG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc a'r Swyddog Technegol, er mwyn cynghori'r Cydbwyllgor ar y trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Nadolig Amlosgfa Llangrallo 2020.

Dywedodd wrth yr Aelodau, yn anffodus, oherwydd y sefyllfa barhaus gyda phandemig Covid-19, yr ystyriwyd bod angen canslo'r Gwasanaeth Nadolig eleni, a fyddai, gobeithio, yn ailddechrau ym mis Rhagfyr 2021.

Dywedodd y Cadeirydd, er bod canslo'r Gwasanaeth eleni yn gwbl ddealladwy, ei fod yn dal yn drist o weld na fyddai'n mynd yn ei flaen, gan ei fod yn rhoi cyfle i unigolion sy'n mynd iddo fyfyrto ar y 12 mis diwethaf ac efallai alaru ar ôl colli unrhyw anwyliaid yn ystod y cyfnod hwnnw.

Cydnabu ymdrechion y tîm Gwasanaethau Profedigaeth a fu yno i aelodau o'r cyhoedd yn ystod uchafbwynt y pandemig pan oedd llawer o bobl, yn anffodus, wedi colli eu

bywydau oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â Covid neu Covid. O fis Mawrth hyd at yn ddiweddar pan ddaeth achosion i'r amlwg, bu'r pwysau ar staff yn ddi-ildio.

Ychwanegodd y byddai ar ran y Cydbwyllgor, fel Cadeirydd, yn anfon e-bost at reolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd yn diolch iddi hi a'i staff, am eu hymdrechion parhaus wrth ddelio â'r lefel uchel o amlosgiadau a fu yn ystod y gwanwyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cydbwyllgor wedi cymeradwyo canslo'r Gwasanaeth Nadolig yn 2020.

78. PANDEMIG COVID-19

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd, er mwyn rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor am y trefniadau yn Amlogfa Llangrallo yn ystod ton gyntaf pandemig Covid-19.

Er gwybodaeth gefndirol, dywedodd wrth yr Aelodau fod "Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020" ym mis Mawrth 2020, wedi gosod cyfyngiadau ar amlosgfeydd. Roedd hyn yn cynnwys caniatáu iddynt gynnal gwasanaethau angladd dim ond os cyflwynwyd mesurau ymbellhau cymdeithasol, gan sicrhau pellter o 2 fetr rhwng yr holl unigolion ar y safle (oni bai eu bod o'r un aelwyd). Roedd y rheoliadau'n caniatáu i deulu a ffrindiau agos fynd i wasanaeth angladd cyhyd ag nad oedd yn golygu teithio'n helaeth a bod y rhai a oedd yn bresennol:

- Yw'r sawl sy'n trefnu'r angladd;
- Wedi'u gwahodd gan y sawl sy'n trefnu'r angladd;
- Yn ofalwr person a wahoddir i'r angladd.

I ddechrau, nododd y rheoliadau y dylai tiroedd yr Amlogfa aros ar gau i'r cyhoedd gyda dim ond y rhai a oedd yn bresennol yn yr angladdau'n swyddogol â chaniatâd i gael mynediad i'r safle. Arweiniodd hyn at gau tiroedd yr Amlogfa am gyfnod byr a oedd yn cynnwys cyfnod pythefnos Sul y Palmwydd a'r Pasg. Diwygiwyd y rheoliadau'n gyflym gan Lywodraeth Cymru gan ganiatáu i dir yr Amlogfa ailagor i'r rhai a wahoddwyd i angladd ac i alluogi aelodau o'r cyhoedd i osod blodau wrth ymyl y bedd.

Fel rhan o'r cyfyngiadau tyn hyn, y capel mwy, Crallo, oedd yr unig gapel a ddefnyddiwyd, ac addaswyd cynllun y capel o dan reolau ymbellhau cymdeithasol y llywodraeth.

Ychwanegodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod yr holl staff a fu'n gweithio yn y cyfleuster drwy gydol y pandemig gyda PPE perthnasol a mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd, ac roedd gweithdrefnau'n cael eu haddasu i alluogi'r gwasanaeth i barhau â'i ddyletswyddau arferol.

Aeth ymlaen, drwy gadarnhau bod y swyddfa weinyddol yn parhau'n gwbl weithredol ond ei bod ar gau i'r cyhoedd sy'n ymweld, gyda'r holl gymorth yn cael ei ddarparu dros y ffôn a thrwy e-bost/gohebiaeth drwy'r post. Darparwyd mynediad i'r swyddfa i Gyfarwyddwyr Angladdau drwy wasanaeth intercom er mwyn dosbarthu ffurflenni a darparu/casglu yrnau ac roeddent hefyd yn cael darparu ffurflenni'n electronig. Darparwyd mynediad iddynt i'r swyddfa drwy ddefnyddio sgriniau a darparwyd diheintydd dwylo hefyd. Roedd staff yr Amlogfa hefyd yn ymbellhau'n gymdeithasol, gyda gorsafedd gwaith wedi'u haddasu lle y bo'n briodol.

Aeth Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd yn ei blaen i ddweud bod mesurau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau na châi'r Amlogfa ei llethu yn

ystod y pandemig. Cyfyngwyd amseroedd gwasanaeth angladdau i dri deg munud a chyflwynwyd amseroedd gwasanaeth ychwanegol i gynyddu'r capasiti dyddiol o uchafswm o ddeg angladd i bedwar ar ddeg, er mwyn sicrhau nad oedd yn rhaid i'r rhai mewn profedigaeth aros yn hir i gynnal gwasanaeth. Cafodd aelodau staff ychwanegol eu hadleoli i'r gwasanaeth er mwyn gallu hyfforddi technegwyr amlogi ychwanegol i sicrhau gwydnwch a pharhad busnes, gyda phatrymau shifftiau hefyd yn cael eu rhoi ar waith o oriau gwaith arferol.

Ar anterth y pandemig, cyfyngwyd niferoedd presenoldeb angladdau i ddeg ac yna ymlacio i ugain pan ddaeth yn fwy diogel i wneud hynny, er mwyn ceisio amddiffyn staff a galarwyr rhag haint. Cynhaliwyd asesiadau risg a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod pwysig hwn. Parhaodd galarwyr i gael yr opsiwn i ffrydio'r gwasanaeth angladd dros y rhyngwyd ac i recordio'r gwasanaeth. Fe'u hatgoffwyd hefyd o'r opsiwn i gynnal gwasanaeth coffa yn ddiweddarach. Er i'r Amlogsgfa gael ei rhoi dan bwysau yn ystod pandemig Covid-19, roedd hi'n falch o gadarnhau na fu byth yn agos at gael ei llethu.

Cynhaliodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd, yn ystod y cyfnod hwn, sesiynau briffio a chyfathrebu rheolaidd â Chyfarwyddwyr Angladdau i sicrhau bod rheoliadau pandemig Llywodraeth Cymru yn cael eu dilyn a bod holl weithdrefnau a strategaethau'r Amlogsgfa yn cael eu deall yn llawn wrth i'r pandemig ddatblygu.

Gan droi mwy at y sefyllfa bresennol, cyfeiriodd yr Aelodau at baragraff 4.1 o'r adroddiad a thabl a oedd yn cymharu nifer y gwasanaethau angladd yn ystod 2019 â'r un cyfnod yn 2020. Dangosodd 2020 gynnydd sylweddol hyd at 2019 ar gyfer y misoedd a ddangoswyd, h.y. o fis Ionawr i fis Mehefin, yn gynhwysol.

Sicrhawyd y Cydbwyllgor gan Reolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod Amlogsgfa Llangrallo yn parhau i weithredu o dan reoliadau pandemig. Er mwyn cadw at ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch cadw pellter cymdeithasol, mae mesurau lleol yn dal i fod ar waith sy'n cyfyngu ar bresenoldeb angladdau, a ddewisir drwy wahoddiad ymlaen llaw.

Eglurodd mai iechyd a lles teuluoedd mewn profedigaeth, timau cyfarwyddo angladdau, staff y Cyngor a'u teuluoedd, a'r gymuned ehangach, oedd prif flaenoriaeth yr Amlogsgfa o hyd ac roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu monitro yn unol â hynny.

Cwblhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd ei chyflwyniad, drwy ddweud bod y niferoedd a oedd yn bresennol mewn angladdau yn cael eu hadolygu'n gyson yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth Amlogsgfa yn dal i werthfawrogi pa mor anodd yw'r cyfnod hwn o bandemig i deuluoedd mewn profedigaeth a'u ffrindiau wrth iddi barhau i reoli'r gwasanaeth yn ddiogel.

Gofynnodd Aelod a oedd lefelau'r gwasanaethau angladd bellach wedi dechrau dychwelyd i lefel arferol o ran niferoedd, yn dilyn yr ymchwydd cychwynnol oherwydd pandemig Covid-19.

Dyweddodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod y niferoedd yn dychwelyd yn fwy i'r lefel arferol, er bod yr Amlogsgfa weithiau'n cael gwybod am farwolaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 o hyd. Er, ar hyn o bryd, roedd effaith y feirws yn llai dwys. Fodd bynnag, rhagwelwyd ail don bosibl, ond gobeithio na fyddai hynny'n digwydd, ychwanegodd.

Daeth y Cadeirydd â'r ddaol i ben ar yr eitem hon drwy ddweud bod y tabl yn yr adroddiad a'r ffigurau a ddangoswyd o fewn hynny wedi rhoi adlewyrchiad trist o ran yr effaith y mae'r feirws wedi'i chael ar unigolion a'u teuluoedd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cydbwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

79. DATGANIAD CYFRIFYDDU BLYNYDDOL 2019-20 A DATGANIAD MONITRO REFENIW 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 20

Cyflwynwyd adroddiad gan y Trysorydd, a'i ddiben oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 i'r Cydbwyllgor, ar ôl cau'r cyfrifon, a rhoi gwybod i'r Cydbwyllgor am fanylion incwm a gwariant ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2020-21, a darparu amcanestyniad o'r sefyllfa alldro derfynol.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chau, yn unol â Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, ei bod yn ofynnol i Gydbwyllgor Amlogsgfa Llangrallo gwblhau Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol gan eu bod yn cael eu hystyried yn gorff llywodraeth leol llai gydag incwm a gwariant blynyddol o dan £2.5 miliwn.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol yn ffurfiol erbyn 15 Mehefin ac ardystio eu bod yn cyflwyno sefyllfa ariannol Amlogsgfa Llangrallo yn deg. Oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd y Cydbwyllgor yn gallu cymeradwyo'r datganiad erbyn y dyddiad hwn. Cytunwyd ag Archwilio Cymru i dderbyn bod y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol yn cael ei ardystio yn y cyfarfod ar 4 Medi.

Oherwydd Covid-19 mae'r archwilydd eisoes wedi cynnal ei archwiliad ac o ganlyniad mae wedi nodi nad oes angen unrhyw ddiwygiadau, fel yr amlinellir yn eu llythyr Archwilio yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Rhaid i'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ardystiedig gael ei gyhoeddi erbyn 15 Medi 2020, esboniodd y Swyddog.

Mae Adran 1 o'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol (Atodiad 2) yn dangos bod Amlogsgfa Llangrallo wedi gwneud gwarged net o £298,201 yn 2019-20 (gwahaniaeth rhwng Llinell 1 'Balansau a ddygwyd ymlaen' a Llinell 7 'Balansau a gariwyd ymlaen'). Ychwanegwyd y gwarged at y gronfa gronol ar gyfer yr Amlogsgfa a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2019, gan ddod â chyfanswm y gronfa honno i £2,053,652 ar 31 Mawrth 2020 o'i gymharu â £1,755,451 yn y flwyddyn flaenorol.

Dangosodd Tabl 1 yn yr adran hon o'r adroddiad grynoded o sefyllfa ariannol derfynol yr Amlogsgfa ar gyfer 2019-20, o'i gymharu â'r gyllideb a nodir ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Cyfeiriwyd yr Aelodau gan y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chau at baragraff 4.2 o'r adroddiad, lle'r oedd esboniadau am yr amrywiadau mwy sylweddol o'r gyllideb.

Yna rhoddodd Tabl 2 yn yr adroddiad ddadansoddiad o'r Gyllideb Cynnal a Chadw a Gynllunnir, ynghyd â'r Alldro a'r Amrywiadau ar gyfer 2019-20.

Esboniodd fod y balans o £245,000 ar yr estyniad cwrt blodau, £300,000 ar gyfer Goleuadau Safle ac £20,000 ar gyfer Byrddau Dosbarthu Trydan i gyd wedi'u cario ymlaen ac yn rhan o gyllideb Cynnal a Chadw Cyfalaf Arfaethedig 2020-21.

Mae incwm yn uwch na'r gyllideb £22,000 oherwydd y Grant Ffioedd Claddu Plant (£13,000) a Ffioedd Amlogsi (£9,000).

Yn ogystal â'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol, ceir Mantolen atodol yn Nhabl 3 isod. Mae'r wybodaeth atodol hon yn rhoi dadansoddiad pellach o'r ffigurau a gofnodwyd yn y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol. Roedd hyn er gwybodaeth yn unig, ac nid yw'n destun archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn.

CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO - DYDD GWENER, 4 MEDI 2020

Yna amlinellodd Tabl 3 y Fantolen ar gyfer Blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 a 2020 a gwelwyd rhagor o wybodaeth yn esbonio'r balansau yn y tabl hwn ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Yna rhoddodd Tabl 4 Sefyllfa Ariannol yr Amlogfa ar gyfer 2020-21, gydag esboniad o'r amrywiannau rhwng y Gyllideb a'r Alldro Rhagamcanol, a nodir yn union islaw'r tabl hwn.

Yn olaf, roedd Tabl 5 ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad yn adlewyrchu'r gyllideb Ariannu Cyfalaf £882,000 fel y'i rhannwyd ar gyfer y gwahanol waith a restrir felly yn y tabl hwnnw.

PENDERFYNWYD:

Mae'r Cydbwyllgor:

- (a) Wedi cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer Amlogfa Llangrallo 2019-20 (Atodiad 2 i'r adroddiad) a gofynnwyd i Gadeirydd y Cydbwyllgor Iofnodi'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol.
- (b) Wedi nodi perfformiad ariannol rhagamcanol Amlogfa Llangrallo ar gyfer 2020-21.

80. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:02